

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn
Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Rhagfyr 12, 2017 am 7.30 o'r gloch.**

Presennol: Cyngorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), John Hughes, Llinos Williams, Gareth Ellis, Gethin Williams, Simon Evans. Hefyd Peredur Jenkins, Henry M. Edwards.

Rhodddwyd croeso arbennig i Seimon Evans yn ei gyfarfod cyntaf wedi iddo gael ei dderbyn yn Gyngorwr y Cyngor.

1. Ymddiheuriadau: Elfed ap Gomer, Carwyn Evans, Paul Williams.

2. Datgan diddordeb:

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Tachwedd 14, 2017

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion Tachwedd 14, 2017

Eitem 8.ch. Penderfynwyd i Llinos Williams gwneud ymoliadau gyda Mr Edward Harries i gael sylwadau ar y 2 hysbysfwrdd.

Eitem 10.c. Llythyr (16/11/2017) oddi wrth Peredur Jenkins gyda llythyr oddi wrth Uned Datblygu Eiddo yn rhoi gwybodaeth am fanylion yr ysgol.

Eitem 10.d. Llythyr ateb (23/11/2017) oddi wrth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn rhoi gwybod bod perchennog y tir ochr isaf i fynedfa Hafod Fach wedi cael gwybod mai angen caniatâd cynllunio i wneud gwaith yno ond ni chyflwynwyd cais cynllunio. Mi fydd yr Adran yn ymchwilio i leoliad y sied sydd ar y safle a'r defnydd sy'n cael ei wneud o'r fynedfa i benderfynu a oes unrhyw dor-rheolau cynllunio yn digwydd. O'r ymchwiliad o'r gwaith oedd yn cael ei wneud ar y safle yn 2014 dwedodd y tîrfeddiannwr i'r Adran roedd y gwaith i wella'r tir a rhoi mynediad yn y rhan uchaf.

5. Materion Ariannol

a. Bil (25/10/2017) am £17.00 oddi wrth R.B.L. Dolgellau am 'type B wreath'.

Penderfynwyd talu'r bil.

b. Bil (27/11/2017) am £169.00 oddi wrth Elfed ap Gomer am gynnal a chadw gwefan y Cyngor am flwyddyn arall. I wneud y wefan yn fwy diogel mae Google yn awgrymu i ni gael tystysgrif SSL (Secure Sockets Layer) a bydd hyn yn costio £30.00 (= ½ pris y flwydd gyntaf)

Penderfynwyd talu'r bil, a thrafod tystysgrif SSL yn cyfarfod nesaf.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION RHAGFYR 12, 2017

c. Llythyr (30/11/2017) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan Adran 137(4) (a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. 'Gwariant Adran 137': Y terfyn ar gyfer 2018-19. Maent yn rhoi gwybod gall Cynghorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19 £7.86, am bob etholwr, i sefydliadau sydd angen arian.

Bydd yr uchafswm yn $£7.86 \times 378 = £2,971.08$.

ch Bil (1/12/2017) am £528.00 oddi wrth Mr A.M. Ashton am glirio gordyfiant ar wal y fynwent, a chlirio coed ac eiddew yn y fynwent.

Penderfynwyd talu'r bil.

d. Siec (4/12/2017) am £100 oddi wrth I.B. Williams a'i Fab Cyf. i osod beddfaen ar y diwedd ar Lilian June Palmer.

dd. Llythyr (6/12/2017) oddi wrth Cyllid, Cyngor Gwynedd. Maent angen gwybod ein praesept am 2018 / 2019. Maent angen y wybodaeth erbyn dydd Gwener, Ionawr 26, 2018.

Penderfynwyd trafod y mater yn cyfarfod nesaf.

e. Balans yn y banc ar 29 Tachwedd, 2017: £9,065.77.

6. Mynwent Llanelltyd

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Ceisiadau cynllunio.

1. NP5/65/PIAW124E. Cais am gymeradwyaeth i faterion a gadwyd yn ôl i godi tŷ. Tir yn Bryn Du, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

O'r cyfarfod Rhagfyr 12, 2016:

Cais cynllunio NP5/65/124E. Cais amlinellol gyda rhai materion wedi eu cadw'n ôl i godi tŷ menter gwledig ac adeilad fferm. Tir ger Tŷ Pwmp, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais gydag amod nid oes datblygiad tu allan i'r llinell goch sydd yn cael ei ddangos ar y cais.

2. NP5/65/93A. Dymchwel garej presennol a chodi garej newydd gydag ystafell deledu uwchben yn cynnwys grisiau allanol. Brookside, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

8. Gohebiaeth

a. Llythyr (13/11/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn Llyfrgell Rydd, Dolgellau ar ddydd Mawrth, Tachwedd 28, 2016 am 7.00yh. Bydd Emma Quaek yn bresennol yn rhoi gwybodaeth ar Dementia. Amgáu mae Agenda, Cofnodion y pwyllgor chynhaliwyd ar Medi 26, 2017, a gwybodaeth ar Aros yn Iach.

Gweler o'r Cofnodion bod John Roberts, Archwiliwr Mewnol, yn ymddeol. Mae awgrym i Un Llais Cymru canfod Archwiliwr Mewnol.

b. Llythyr (16/11/2017) oddi wrth Calonnau Cymru. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

c. Llythyr (17/11/2017) oddi wrth y Groes Goch Brydeinig. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

ch. Llythyr (3/12/2017) oddi wrth Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

d. Llythyr (20/11/2017) oddi wrth Elfed ap Gomer gyda chwyn cafodd gan Sue Townsend yn dweud mai angen bin halen newydd wrth Ceseilgwm Mawr, ac yn dweud hefyd bod Swyddog o Adran y Priffyrdd yn dweud nid ydym wedi ymuno â chynllun biniau halen Cyngor Gwynedd.

Rhodddwyd gwybod i'r Adran ein bod wedi ymuno â'r cynllun (er nid oeddynt wedi nodi hyn) ac iddynt roi bin newydd wrth Ceseilgwm.

Llythyr ateb (27/11/2017) yn rhoi gwybod rydym â'r cynllun biniau halen Cyngor Gwynedd. Maent am roi sylw i'r bin halen sydd wrth Ceseilgwm Mawr ac i'r bin sydd wrth y ciosg.

dd. Llythyr (23/11/2017) oddi wrth Elfed ap Gomer yn rhoi gwybod bod dŵr wedi llifo ar hyd ffordd Taicynhaeaf wedi'r glaw yn 22/11/2017 gan achosi dail a mwd ar wyneb y ffordd.

Rhodddwyd gwybod i Adran Priffyrdd am y digwyddiad.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION RHAGFYR 12, 2017

e. Llythyr (7/12/2017), trwy Un Llais Cymru, oddi wrth Gwasanaeth Ambiwylans Cymru (The Ambulance Services Union). Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror ‘Cais am Nawdd’.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

a. Llythyr (5/12/2017) oddi wrth Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad, Cyngor Gwynedd yn rhoi cynllun gwaharddiad parcio wrth gyffordd sydd wrth Pont Wnin, a chynllun gwaharddiad parcio at gyfer yr ysgol.

Penderfynwyd rhoi gwybod i'r Gwasanaeth i ymestyn y llinellau melyn awgrymwyd wrth Pont Wnin.

10. Materion Brys

Nid oedd materion brys.
